



Teitl yr adroddiad: Report title:	Ymateb Rheolwyr i Adolygiad Annibynnol (Asesiad Sicrwydd Fasgwlaidd)
Adrodd i: Report to:	Y Weithrediaeth Ansawdd a Diogelwch (QSE)
Dyddiad y Cyfarfod: Date of Meeting:	6 Mehefin 2024
Crynodeb Gweithredol: Executive Summary:	<p>Fel rhan o'r ymyriad Mesurau Arbennig, gofynnodd Llywodraeth Cymru am asesiad allanol pellach o'r gwasanaeth fasgwlaidd yn BIPBC (Asesiad Sicrwydd Fasgwlaidd - Rhan 1). Cynhaliwyd yr adolygiad gan y Rhwydwaith Clinigol Fasgwlaidd ym mis Mai 2023. Cytunwyd y byddai'r Asesiad Sicrwydd hwn yn ddarn ategol o waith a fyddai'n cael ei gynnal ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd. Diben Rhan 1 o'r Asesiad Sicrwydd oedd adolygu ansawdd y gwasanaeth fasgwlaidd a gwasanaethau cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â'r llwybrau gofal, ac asesu i ba raddau yr oedd argymhellion o'r amryw o adolygiadau ac adroddiadau wedi'u gweithredu mewn modd sy'n gynaliadwy. Cyhoeddwyd Rhan 1 o'r Asesiad Sicrwydd ym mis Hydref 2023. Roedd yn tynnu sylw at welliant cyffredinol yn ansawdd a diogelwch y gwasanaeth fasgwlaidd.</p> <p>Yna comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o 40 o nodiadau achos cleifion fasgwlaidd rhwng Awst 2022 ac Awst 2023 (Asesiad Sicrwydd Fasgwlaidd - Rhan 2). Diben yr adolygiad hwn o nodiadau achos oedd ategu asesiad Rhan 1 drwy ddadansoddi i ba raddau yr oedd argymhellion o adolygiadau ac adroddiadau blaenorol wedi'u rhoi ar waith ac yn weithredol yn eu lle. Rhannwyd yr adroddiad gyda'r Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2024. Canfu'r panel fod 38 allan o 40 o driniaethau fasgwlaidd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod amser hwnnw wedi'u graddio'n gyffredinol dderbyniol. Gan ystyried amserlen y gwaith asesu hwn, mae'r Panel o'r farn ei fod yn dangos llwybr cadarnhaol parhaus o welliant yn ymarfer fasgwlaidd BIPBC.</p> <p>Mae'n bwysig cydnabod bod llawer o enghreifftiau o waith da sy'n digwydd ar draws y Bwrdd Iechyd yn sail i'r cynnydd hwn. Amlygodd sawl claf a'u teuluoedd eu bod yn hapus gyda'r gofal yr oeddent wedi'i dderbyn ac yn ei werthfawrogi. Nododd y Panel hefyd ei bod yn amlwg o gynrychiolaeth y tîm fasgwlaidd lleol bod awydd cryf i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion a'u teuluoedd.</p> <p>Roedd nifer o feysydd lle ystyriwyd y gellid mynd i'r afael â gwelliannau pellach neu eu hatgyfnerthu. Dylid cydnabod nad yw'r meysydd hyn yn gysylltiedig ag arfer uniongyrchol y gwasanaeth fasgwlaidd yn unig a'u bod yn cynnwys gwasanaethau ac arferion cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â darparu llwybrau gofal aml broffesiynol. Roedd rhai o'r meysydd hyn hefyd wedi'u nodi mewn adolygiadau blaenorol. Mae'n bwysig felly, bod y Bwrdd Iechyd a'r Rhwydwaith Fasgwlaidd yn gwneud</p>

	<p>pob ymdrech i sicrhau bod yr holl argymhellion gwella sy'n weddill yn cael eu gweithredu'n amserol.</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ymateb y rheolwyr i Rannau 1 a 2 o'r Asesiad Sicrwydd, ac mae wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'n clinigwyr. Amlinellir crynodeb o ganfyddiadau allweddol yr Asesiadau Sicrwydd, yn ogystal â'r camau a gymerir er mwyn cyflawni'r gwelliannau gwasanaeth a awgrymir.</p>			
Argymhellion: Recommendations:	Gofynnir i'r QSE nodi'r adroddiad hwn			
Arweinydd Gweithredol: Executive Lead:	Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol			
Awdur yr Adroddiad: Report Author:	Dr Jo Flannery, Rheolwr y Rhwydwaith Fasgwlaidd			
Pwrpas yr adroddiad: Purpose of report:	I'w Nodi <i>For Noting</i> <input checked="" type="checkbox"/>	I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input type="checkbox"/>	Am Sicrwydd <i>For Assurance</i> <input checked="" type="checkbox"/>	
Lefel sicrwydd: Assurance level:	Arwyddocaol Significant <input type="checkbox"/> <small>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol</small> <small>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</small>	Derbyniol Acceptable <input checked="" type="checkbox"/> <small>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol</small> <small>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</small>	Rhannol Partial <input type="checkbox"/> <small>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol</small> <small>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</small>	Dim Sicrwydd No Assurance <input type="checkbox"/> <small>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth</small> <small>No confidence / evidence in delivery</small>
<p>Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:</p> <p><i>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</i></p>				
Cysylltiad ag Amcan/Amcanion Strategol: Link to Strategic Objective(s):	Cynorthwyo â'r ymateb i'r Mesurau Arbennig			
Goblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol: Regulatory and legal implications:	Gall digwyddiadau o niwed i gleifion ddangos methiannau i gydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal GIG Cymru neu ddeddfwriaeth diogelwch			
Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?	Nid yw'n berthnasol i'r papur hwn. Fodd bynnag, cwblheir EqIA fel rhan o'r gwaith gwella cyffredinol			
Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?	Nid yw'n berthnasol			

<p>Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)</p> <p><i>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)</i></p>	<p>CRR22-25: Risg o fethu â darparu gwasanaeth fasgwlaidd llawn oherwydd diffyg yn niferoedd y meddygon ymgynghorol ar gael</p> <p>CRR22-26: Risg o niwed sylweddol i gleifion o ganlyniad i gynaliadwyedd y gwasanaeth fasgwlaidd aciwt</p> <p>CRR22-30: Risg y gall diffyg arweinyddiaeth gadarn a chyson gyfrannu at y pryderon ynghylch diogelwch ac ansawdd</p>
<p>Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Financial implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	<p>Mae cyflawniad y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr argymhellion gwella canlynol yn dibynnu ar ddatblygu Achos Busnes:</p> <p>VAA_P1_R4: Recriwtio llawfeddygon y Traed a'r Ffêr, Diabetolegwyr a Therapyddion i gefnogi Gwasanaeth Amddisgyblaethol y Traed (MDFS), yn arbennig yn y canolfannau ategol</p> <p>VAA_P1_R5: Sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer Gwasanaeth Amlddisgyblaethol y Traed (MDFS) sydd ar hyn o bryd yn derbyn arian ysgogi.</p>
<p>Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Workforce implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	<p>Mae cyflawniad y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr argymhellion gwella canlynol yn dibynnu ar ddatblygu Achos Busnes:</p> <p>VAA_P1_R4: Recriwtio llawfeddygon y Traed a'r Ffêr, Diabetolegwyr a Therapyddion i gefnogi Gwasanaeth Amddisgyblaethol y Traed (MDFS), yn arbennig yn y canolfannau ategol</p> <p>VAA_P1_R5: Sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer Gwasanaeth Amlddisgyblaethol y Traed (MDFS) sydd ar hyn o bryd yn derbyn arian ysgogi.</p>
<p>Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori</p> <p><i>Feedback, response, and follow up summary following consultation</i></p>	<p>Rhannwyd yr adroddiad hwn â Chyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig y Canol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, sydd wedi cymeradwyo'r adroddiad</p>
<p>Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)</p> <p>Links to BAF risks: (or links to the Corporate Risk Register)</p>	<p>BAF21-02: Adfer mynediad at lwybrau gofal wedi'u cynllunio amserol</p>
<p>Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)</p> <p><i>Reason for submission of report to confidential board (where relevant)</i></p>	<p>Nid yw'n berthnasol</p>
<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dechrau gweithredu'r argymhellion gwella a amlinellir yn Rhan 1 a 2 o'r Asesiad Sicrwydd ▪ Dechrau gweithredu'r argymhellion gwella a amlinellir yn Rhan 1 a 2 o'r Asesiad Sicrwydd 	

Pwyllgor Gweithredol Ansawdd a Diogelwch – 6 Mehefin 2024

Adolygiadau Annibynnol Mesurau Arbennig - Ymateb y Rheolwyr

Asesiad Sicrwydd Fasgwlaidd

1) Cefndir a chyd-destun

Roedd gwasanaeth fasgwlaidd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi bod mewn Ymyrraeth wedi'i Thargedu ers mis Mai 2022 yn dilyn cyhoeddi ail Adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS) ar y gwasanaeth. Ym mis Mawrth 2022, roedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi dynodi gwasanaeth fasgwlaidd y bwrdd iechyd yn wasanaeth yr oedd angen ei wella'n sylweddol.

Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn codi statws ymyrraeth BIPBC i fesurau arbennig ar unwaith. Daeth y penderfyniad arwyddocaol hwn yn dilyn cyfarfodydd grŵp teiran yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Archwilio Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023. Trafodwyd pryderon penodol am gyflenwi gwasanaethau, ansawdd a diogelwch gofal ac effeithiolrwydd sefydliadol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd y penderfyniad hwn yn adlewyrchu pryderon difrifol heb eu datrys ynghylch effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant sefydliadol, ansawdd ac ad-drefnu gwasanaethau, llywodraethu, diogelwch cleifion, darpariaeth weithredol, arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol.

Cyhoeddwyd adroddiad cyntaf Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS) ar ymweliad Adolygu Gwasanaeth Llawfeddygaeth Fasgwlaidd BIPBC ar 15 Mawrth 2021. Cyhoeddwyd ail Adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon ar 44 o gofnodion clinigol yn ymwneud â llawdriniaeth fasgwlaidd ar ran BIPBC ar 20 Ionawr 2022 (Atodiad A).

Roedd y gwasanaethau fasgwlaidd wedi bod mewn Ymyrraeth wedi'i Thargedu ers mis Mai 2022 yn dilyn cyhoeddi ail adroddiad RCS ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn dynodi'r gwasanaeth fasgwlaidd yn wasanaeth yr oedd angen ei wella'n sylweddol ym mis Mawrth 2022. Cynhaliodd AGIC arolygiad o'r gwasanaeth ym mis Tachwedd 2022 a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2023. Arweiniodd hyn at isgyfeirio dynodiad AGIC. Serch hynny, amlygodd adroddiad y panel adolygu Ansawdd Fasgwlaidd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023 fylchau pellach yn y gwasanaeth.

Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd i Fesurau Arbennig ar unwaith. Mae gwahanol gydrannau o waith gwella a sicrwydd yn cael eu cynnal drwy'r rhaglen Mesurau Arbennig yn unol â'r fframwaith mesurau arbennig y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

2) Trosolwg o'r Sesiwn Ddatblygu

Roedd meddygon ymgynghorol fasgwlaidd yn fodlon â chanfyddiadau'r ddau adroddiad, ac yn croesawu'r adborth cadarnhaol a gafwyd ynddynt. Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae datblygu llwybrau clinigol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd, gydag adnoddau wedi'u sicrhau gan y Tîm Trawsnewid a Gwella i sicrhau eu datblygiad parhaus. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, cyflwynir llwybrau a SOPs i'r Grŵp Strategol Effeithiolrwydd Clinigol. Mae hyn yn sicrhau bod pob llwybr yn bodloni meini prawf clir ar gyfer ansawdd ac effeithiolrwydd. Mae'r Rhwydwaith yn cydnabod yr heriau o ran sicrhau rhaeadru llwyr ar draws pob tîm, ac mae'n bwriadu datblygu'r safle mewn rwyd Fasgwlaidd fel safle lle gall staff gael mynediad rhwydd at llwybrau.
- Mae cynnydd o ran datblygu a gweithredu Gwasanaethau Amlddisgyblaethol y Traed , gyda llwybrau clir a SOPs yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd, ac mae gwaith ar y gweill i gyd-ddylunio llwybr troed diabetig brys, sy'n dderbyniol ar draws ôl troed y Bwrdd Iechyd. .
- Mae'r Rhwydwaith yn cydnabod bod angen parhau i atgyfnerthu dulliau gweithio integredig ar draws safleoedd y prif ganolfannau a chanolfannau ategol, yn arbennig o ran cyfathrebu a'r gweithlu amlddisgyblaethol ehangach. Mae angen gwaith i safoni diwylliant ac arfer ar draws y Rhwydwaith er mwyn sicrhau tegwch o ran mynediad a darpariaeth. Mae timau rheoli gweithredol wedi gweithio'n galed i atgyfnerthu perthnasoedd gwaith ar draws y prif ganolfannau a'r canolfannau ategol, gyda thîm Cymuned Iechyd Integredig y Canol yn cymryd rôl arweiniol mewn materion PBC gyfan, gan sicrhau cyfranogiad llawn gan dimau'r Cymunedau Iechyd Integredig eraill. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gellir atgyfnerthu arferion o'r fath bob amser er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Mae'r rhwydwaith yn cydnabod y rhan hollbwysig y mae staff gweinyddol yn ei chwarae wrth alluogi'r rhwydwaith fasgwlaidd i weithredu'n llwyddiannus ac yn llyfn, ac mae wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth gyfartal ar draws y prif ganolfannau a'r canolfannau ategol.
- Mae'r Rhwydwaith yn awyddus i sicrhau bod gwasanaethau Fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru yn cael eu llywio gan weithgarwch a data perfformiad cadarn, a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio cynllunio gweithredol a strategol. Mae amrywiaeth o ffynonellau data eisoes yn cael eu defnyddio i alluogi hyn, gan gynnwys dangosfwrdd gweithredol. Serch hynny, rydym yn cydnabod y gellir gwneud llawer o waith i wella ein defnydd o ddata, ar lefelau gwahanol a chyda chynulleidfaoedd gwahanol. Bydd datblygu'r dangosfwrdd gweithredol a chanlyniadau integredig yn barhaus yn faes ffocws allweddol ar gyfer y Rhwydwaith yn 2024/25
- Mae pwysigrwydd darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gleifion fasgwlaidd i'w galluogi i reoli eu hiechyd, eu lles a'u cyflwr fasgwlaidd, cyn ac ar ôl llawdriniaeth, yn rhywbeth y mae'r Rhwydwaith yn ei gydnabod, ac mae'n awyddus i'w ddatblygu. Yn y tymor hir, mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd ag uchelgais i ddarparu cymorth rhagsefydlu i bobl â chyflwr fasgwlaidd er mwyn gwella canlyniadau ar ôl llawdriniaethau.
- Mae'r Rhwydwaith yn croesawu'r argymhellion hynny sy'n galw am fwy o gydweithio gydag amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys microbioleg a seicoleg, a mewnbwn penodol ganddynt. Bydd ychwanegiadau o'r fath yn gam cadarnhaol i'r gwasanaeth wrth symud ymlaen

3) Themâu Allweddol yr Adolygiad

Themâu yn deillio o'r adolygiadau a gafwyd hyd yn hyn	Perthnasol i'r adolygiad hwn <i>Rhowch X yn y blwch os yw'n berthnasol</i>
1. Data, Gwybodaeth a Mewnwelediad Sicrhau ein bod yn defnyddio dull sefydliad cyfan gan flaenoriaethu ymyriadau sy'n gwella ein hadnoddau a'n galluoedd data, gwybodaeth a mewnwelediad. Bydd hyn yn	<input checked="" type="checkbox"/>

allweddol ar gyfer galluogi gwelliannau cynaliadwy yn ogystal â'n cynorthwyo i nodi gwasanaethau a allai beri pryder yn y dyfodol.	
2. Diwylliant Diffinio, ymgysylltu ac ymrwmo i'r gwaith hirdymor sydd ei angen i wella diwylliant y sefydliad. Ei integreiddio i'n cynllun datblygu sefydliadol ehangach ar draws Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu.	<input type="checkbox"/>
3. Rheoli Risg Adolygu a mireinio ein hymagwedd a'n hawydd at risg, gan gynnwys sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli, eu lliniaru, eu hadrodd a'u monitro.	<input checked="" type="checkbox"/>
4. Cynnwys Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr Un dull cydgysylltiedig o gynnwys ac ymgysylltu â'n cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr i'r eithaf, gan ddefnyddio eu profiadau i arwain gwelliannau parhaus yn ein gwasanaeth.	<input type="checkbox"/>
5. Model Gweithredu Sicrhau bod ein model gweithredu wedi'i gynllunio i gyflawni ein blaenoriaethau strategol, gydag eglurder i bawb ar bob lefel o'r sefydliad am rolau a chyfrifoldebau, systemau a phrosesau o fewn uwch adrannau a gwasanaethau PBC Gyfan.	<input checked="" type="checkbox"/>
6. Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad Sicrhau gwelededd a dealltwriaeth am arferion gorau llywodraethu ar draws y sefydliad a sicrhau y cedwir ato.	<input checked="" type="checkbox"/>
7. Cynllunio Integredig Agwedd integredig a ddeallir yn dda at gynllunio fel disgyblaeth, yn ogystal â chyfraniadau at ein proses gynllunio flynyddol.	<input type="checkbox"/>

4) Argymhellion

Gofynnir i'r pwyllgor **GYMERADWYO** ymateb y rheolwyr yn barod i'w gyhoeddi yn y parth cyhoeddus.

Tabl 1: Cynllun Gweithredu Ymateb y Rheolwyr

Data, Gwybodaeth a Mewnwelediad					
Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Terfyn amser	Statws RAG¹	Diweddariad ar gynnydd
P1.09	Datblygu dangoswrdd fasgwlaidd lleol i fonitro cydymffurfiaeth.	Jo Flannery	Rhagfyr 2024		<ul style="list-style-type: none"> Mae timau gweithredol a chlinigwyr wedi cadarnhau Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n cefnogi rheolaeth weithredol y gwasanaeth. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn ymgais aildrafftio cyntaf y Dangoswrdd Fasgwlaidd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu fframwaith perfformiad fasgwlaidd i'w gytuno gan uwch reolwyr ar draws safleoedd y prif ganolfan a'r canolfannau ategol. Cytundeb y bydd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i gyfarfodydd grŵp cyflawni fasgwlaidd y Cymunedau Iechyd Integredig unigol, yn ogystal ag i'r Grŵp Llywio Fasgwlaidd i roi sicrwydd ynghylch perfformiad y gwasanaeth. Datblygu cardiau sgorio ar gyfer cynnwys agendâu cyfarfodydd sydd i ddod.

¹ **Diffiniadau o statws RAG:** **Gwyrdd:** Ar y trywydd cywir, **Oren:** Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir **Coch:** Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir

Rheoli Risg					
Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Terfyn amser	Statws RAG¹	Diweddariad ar gynnydd

P2.10	Canolbwyntio ar liniaru'r risg y gall cleifion fasgwlaidd, ac yn enwedig y cleifion hynny sydd wedi cael torri aelod o'r corff, ei hwynebu o ran codymau, â chynllun rheoli wedi'i ddiweddarau	Jo Flannery	Mawrth 2025		<ul style="list-style-type: none"> Archwilio'r nifer o staff fasgwlaidd sydd wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar godymau. Bydd gwaith yn dechrau dros y 1-2 fis nesaf, gyda chefnogaeth Rheolwr y Ward a'r Arweinydd Clinigol i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n weddill yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar godymau cyn gynted â phosibl.
P2.12	Adolygu'r polisi Ni Wnaeth Fynychu (DNA) a'r canllawiau ynghylch pryd y gallai DNA ddod yn fater diogelu, er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o hyn a'r camau i'w cymryd	Jo Flannery	Mawrth 2025		<ul style="list-style-type: none"> Cysylltwyd â thîm diogelu BIPBC i benderfynu a oes polisi DNA yn bodoli. Nid yw polisi DNA yn safonol yn y gwasanaethau i oedolion; fodd bynnag, bydd gwaith yn dechrau gyda chydweithwyr diogelu a nyrsio i ddatblygu polisi fasgwlaidd penodol

¹ **Diffiniadau o statws RAG:** **Gwyrdd:** Ar y trywydd cywir, **Oren:** Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir **Coch:** Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir

Model Gweithredu					
Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Terfyn amser	Statws RAG¹	Diweddariad ar gynnydd
P1.01	Adolygu'r g wasanaeth MDFS gan edrych ar briodoldeb cyfeiriadau at y gwasanaeth fasgwlaidd, a fydd yn cynorthwyo datblygu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP) a llwybrau	Jo Flannery	Medi 2024		<ul style="list-style-type: none"> Ymgysylltu cychwynnol â'r Tîm Trawsnewid a Gwella i sicrhau cymorth ychwanegol i gyflawni'r cam hwn fel rhaglen waith bwrpasol. Gwaith cwmpasu cychwynnol yn cael ei ddylunio
P1.02	Integreiddio tri thîm gweithredol y Cymunedau lechyd Integredig yn well o safbwynt fasgwlaidd i greu rhwydwaith mwy effeithiol.	Jo Flannery	Hydref 2024		<ul style="list-style-type: none"> Ymgysylltu cychwynnol â thimau gweithredol a DGM i ddeall yr heriau a'r blaenoriaethau cyfredol. Y bwriad yw cynnal dau sesiwn hanner diwrnod i ddatblygu a mireinio'r model clinigol a gweithredol, i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i atgyfnerthu'r gwaith prif ganolfan a chanolfannau ategol. Cyflawnir y cam gweithredu hwn ar y cyd â P1.05

P1.03	Panel Ansawdd a Diogelwch BIPBC i asesu ansawdd y llwybrau fasnolaidd newydd, siartiau llif, a SOPs a sicrhau bod y tîm yn cyflawni'r amserlen arfaethedig ar gyfer ysgrifennu. Mae'n rhaid i'r Panel Ansawdd a Diogelwch a thimau gweithredol sicrhau bod y llwybrau'n cael eu dosbarthu i'r timau clinigol, nysio a therapi.	Gareth Griffiths	Mawrth 2025		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cytuno ar brosesau lleol a PBC gyfan i gefnogi cymeradwyo'r llwybrau fasnolaidd wrth iddynt gael eu datblygu. Bydd Grŵp Strategol Effeithiolrwydd Clinigol (S-CEG) yn derbyn pob llwybr ar gyfer eu cymeradwyo'n derfynol. ▪ Bydd Cyfarwyddwyr Meddygol y Cymunedau Iechyd Integredig yn gyfrifol am raeadu'r llwybrau ar draws y timau perthnasol/ meysydd gwasanaeth. Bydd llwybrau'n cael eu huwchlwytho i dudalennau mewnwyd fasnolaidd, i'w gwneud yn haws cael mynediad atynt. Datblygwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer pob llwybr er mwyn galluogi'r rhwydwaith i fonitro'r nifer sy'n manteisio arno a chydymffurfiaeth.
P1.04	Cyfeirio archwiliad o achosion fasnolaidd at y Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol a'r rheiny a uwchgyfeiriwyd i Adolygiadau Marwolaethau cam dau a thri.	Laszlo Papp	Gorffennaf 2024		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Meddygon ymgynghorol i baratoi cyflwyniadau ar farwolaethau fasnolaidd, i'w trafod mewn cyfarfodydd Afiachedd a Marwolaethau misol (Llywodraethu Clinigol) er mwyn cefnogi dysgu a gwelliant parhaus ▪ Rhaglen waith y cyfarfod Rheolaeth Glinigol i gynnwys archwiliad o farwolaethau
P1.05	Pob un o dri thîm gweithredol y Cymunedau Iechyd Integredig i roi mewnbwn ar awdurdodi unrhyw wyliau blynyddol neu wyliau i astudio sy'n effeithio ar ganslo gweithgarwch ar eu safle.	Jo Flannery	Hydref 2024		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymgysylltu cychwynnol â thimau gweithredol a DGM i ddeall yr heriau a'r blaenoriaethau cyfredol. Y bwriad yw cynnal dau sesiwn hanner diwrnod i ddatblygu a mireinio'r model clinigol a gweithredol, i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i atgyfnerthu'r gwaith prif ganolfan a chanolfannau ategol. Cyflawnir y cam gweithredu hwn ar y cyd â P1.02
P1.06	Monitro amseroedd aros cleifion allanol ar draws y rhwydwaith i osgoi gwahaniaethau.	Jo Flannery	Gorffennaf 2024		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Casglwyd gwybodaeth waelodlin ▪ IMS yn sicrhau bod data amseroedd aros wedi'u cynnwys yn y dangosfwrdd fasnolaidd ▪ Adroddwyd ar y cynllun i gynnwys data amseroedd aros ar gardiau sgorio i gyfarfodydd fasnolaidd y Cymunedau Iechyd Integredig a Grŵp Llywio Fasnolaidd PBC gyfan.

P1.07	Alinio llwybr isgemia cronig sy'n peryglu aelodau'r corff (CLTI) â Fframwaith Comisiynu ar gyfer Ansawdd ac Arloesedd (CQUIN) GIG Lloegr h.y. anelu at fwy na 60% o gleifion yn cael eu hailfasgwlaiddio o fewn 5 diwrnod o gael eu derbyn.	Laszlo Papp/ Gareth Griffiths	Medi 2024		<ul style="list-style-type: none"> GWAITH HEB DDECHRAU ETO - Mae'r ffocws ar hyn o bryd ar waith AAA. Unwaith y bydd hyn wedi sefydlogi, bydd y rhwydwaith yn gweithio gyda chlinigwyr i ymchwilio'n ddwfn i ddata CLTI.
P1.08	Adolygu cleifion nad ydynt yn cael eu trin o fewn y targedau er mwyn cynnal archwiliad dwfn i ganfod tueddiadau.	Jo Flannery	Gorffennaf 2024		<ul style="list-style-type: none"> Casglwyd gwybodaeth waelodlin IMS yn sicrhau bod data amser targed triniaeth wedi'i gynnwys ar y dangosfwrdd fasgwlaidd Cynllun i gynnwys data targedau triniaeth ar gardiau sgorio a adroddwyd i gyfarfodydd fasgwlaidd IHC a grŵp llywio fasgwlaidd ar draws yr URhS
P1.10	Datblygu llwybr rhyddhau yn y MAC rhwng timau therapi a nyrsys i gynllunio rhyddhau cleifion yn llwyddiannus	Jo Flannery	Medi 2024		<ul style="list-style-type: none"> Trafodaethau cychwynol gyda Chyfarwyddwr Nyrsio Cymuned Iechyd Integredig y Canol i gytuno ar ddull gweithredu. Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu llwybr wedi'i alinio â llwybr rhyddhau BIPBC. Y dull i gynnwys anghenion gwybodaeth a chymorth cleifion fasgwlaidd ar ôl eu rhyddhau Byddwn yn ymgysylltu â chleifion a gofalwyr i ddeall sut beth sy'n 'dda', ac yn cyd-ddylunio llwybr a dull gweithredu lleol sy'n cyd-fynd â pholisi rhyddhau BIPBC. Cyflawnir y cam gweithredu hwn ar y cyd â P2.11
P2.01	Cytuno ar yr hyn sy'n gyfystyr â llwybr traed diabetig cyfoes sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan roi'r un dull a'r un llwybr ar waith ar unwaith ar draws holl safleoedd BIPBC	Jo Flannery	Awst 2024		<ul style="list-style-type: none"> Mae sicrhau cytundeb ynglŷn â'r llwybr troed diabetig brys ar draws yr PBC gyfan yn parhau i fod yn heriol. Cytunwyd ar y llwybr mewn 2/3 safle, gyda gwaith pellach ar y gweill i gadarnhau cytundeb ar y safle sy'n weddill. Mae'r mater wedi'i uwchgyfeirio i OMD er mwyn cael cymorth i'w wthio ymlaen os na cheir datrysiaid yn y 3-4 wythnos nesaf
P2.02	Nodi cyfleoedd i weithio ar ddull model gwasanaeth integredig ledled y Bwrdd	Jo Flannery	Awst 2024		<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'r gwaith wedi'i ddechrau eto ac mae'n debygol o gael ei ohirio, yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith AAA.

	lechyd gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd o fewn meysydd fel rheoli diabetes; a'i weithredu i atal cleifion rhag gorfod gweld gweithwyr iechyd proffesiynol 'dyblyg' a phrofi oedi				<ul style="list-style-type: none"> • Unwaith y bydd gwaith AAA wedi'i sefydlogi, y bwriad yw cynnal gweithdy gosod gweledigaeth er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> ○ Adolygu pa elfennau o ofal fasgwlaidd sy'n digwydd ar hyn o bryd 'y tu allan i'r ysbyty' ○ Nodi pa ymyriadau ychwanegol allai ddigwydd 'y tu allan i'r ysbyty' ○ Deall beth sydd angen ei roi ar waith i ganiatáu mynd i'r afael â thasgau yn gynharach yn y broses ▪ Bydd y gweithdy yn helpu i lywio'r Strategaeth Busnes Fasgwlaidd 3-5 mlynedd
P2.03	Cadarnhau beth yw'r llwybr gofal lliniarol, a rhannu beth yw cynnwys y strwythur hwnnw, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau cyhoeddus	Jo Flannery	Medi 2024		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Trefnwyd cyfarfod cychwynnol gyda'r tîm gofal lliniarol ar gyfer canol mis Mehefin
P2.04	Sicrhau cysylltiadau cadarn rhwng y tîm gofal lliniarol a'r gwasanaeth fasgwlaidd	Jo Flannery	Medi 2024		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dengys archwiliadau cychwynnol bod y berthynas rhwng gofal lliniarol a fasgwlaidd yn gryf er nad yw'r tîm gofal lliniarol yn cyfrannu at ofal cleifion unigol o fewn fformat presennol y tîm amlddisgyblaethol.
P2.05	Sefydlu llwybr rheoli poen yn ffurfiol, yn arbennig wrth reoli poen niwropathig	Jo Flannery	Chwefror 2025		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Datblygu llwybr rheoli poen cychwynnol – mae hwn i'w adolygu i sicrhau ei fod yn cynnwys rheoli poen niwropathig. Bydd unrhyw newidiadau gofynnol yn cael eu cynllunio ar y cyd â chydweithwyr clinigol a'u cymeradwyo'n ffurfiol yn S-CEG
P2.06	Gwerthuso'r llwybr cyfeirio strôc a rhoi'r canfyddiadau dilynol ar waith ar draws yr holl dimau ambroffesiynol perthnasol	Jo Flannery	Medi 2024		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae adolygiad misol o ddata NVR mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol yn dangos bod prydlondeb triniaeth yn gadarnhaol ▪ Cyfarfod i'w drefnu gyda'r Arweinydd Strôc i gytuno ar adolygiad pellach.

P2.07	Cytuno ar fewnbwn seicoleg fel elfen safonol o ofal fasgwlaidd gyda sesiynau pwrpasol, gwarchodedig o gymorth seicolegol ar gael i'r cleifion fasgwlaidd hynny sydd ei angen	Jo Flannery/ Laszlo Papp	Rhagfyr 2024		<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'r gwaith i gytuno ar fewnbwn seicolegol wedi dechrau eto a bydd y Rhwydwaith a'r Arweinydd Clinigol yn ei drafod yn y 1-2 fis nesaf.
P2.08	Darparu sesiynau gwarchodedig penodol o gymorth microbiolegol ar gyfer y cleifion fasgwlaidd perthnasol sydd ei angen	Jo Flannery/ Laszlo Papp	Rhagfyr 2024		<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'r gwaith i adolygu arferion gwaith presennol wedi dechrau eto a bydd y Rhwydwaith a'r Arweinydd Clinigol yn ei drafod yn y 1-2 fis nesaf.
P2.09	Sicrhau bod meddyg ymgynghorol Gofal yr Henoed (COTE) a'i dîm clinigol ar gael i roi mewnbwn dyddiol ar gleifion fasgwlaidd yn ôl yr angen	Laszlo Papp	Mawrth 2025		<ul style="list-style-type: none"> Oherwydd heriau o ran gallu COTE a/neu recriwtio, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ac wedi amlygu gwerth ystyried modelau eraill gan gynnwys ANP/Cydymaith Meddygol COTE profiadol gyda chymorth meddygon ymgynghorol COTE,
P2.11	Adolygu'r hyn sy'n gyfystyr â chynllunio rhyddhau da a diogel mewn perthynas â chanllawiau BIPBC ynghylch amseru rhyddhau 'y tu allan i oriau' ac asesiadau risg cysylltiedig. Dylai hyn fod yn rhan o adolygiad cyffredinol y polisi Rhyddhau. Mae'r Panel ar ddeall y dylai fod wedi cael ei adolygu yn 2018, ond ni allai nodi tystiolaeth ei fod wedi cael ei ddiweddarau	Jo Flannery	Mawrth 2025		<p>Cyflawnir y cam gweithredu hwn ar y cyd â P1.10</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae polisi rhyddhau BIPBC wedi'i nodi - bydd gwaith yn dechrau i fapio llwybr fasgwlaidd lleol yn erbyn polisi'r bwrdd iechyd i gyd.

<p>P2. 13</p>	<p>Er mwyn gwneud yn siŵr bod taflenni gwybodaeth i gleifion yn cael eu darparu bob amser, argymhellir bod clinigwyr yn e-bostio'r taflenni gwybodaeth at gleifion a/neu aelod o'r teulu. Byddai angen gwneud hyn drwy'r prosesau llywodraethu gwybodaeth perthnasol</p>	<p>Jo Flannery</p>	<p>Mawrth 2025</p>		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae ystod o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr. Bydd addasrwydd y wybodaeth hon yn cael ei adolygu, a bydd y rhwydwaith yn gweithio'n agos gyda PALS i ddeall anghenion gwybodaeth cleifion fasgwlaidd yn well ▪ Bydd tudalennau gwe fasgwlaidd yn cael eu datblygu, a byddant yn cynnwys taflenni gwybodaeth a ffynonellau cymorth
<p>P2. 16</p>	<p>Argymhellir bod llythyrau at gleifion yn fwy personol mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Llythyrau gwahoddiad i gleifion "ffistwla" sy'n bwriadu cael eu llawdriniaeth o dan anesthetig lleol. ▪ Adolygu llythyrau gwahoddiad ar gyfer llawdriniaeth fasgwlaidd i adlewyrchu trefn feddyginiaeth yr unigolyn ac amserlenni 	<p>Laszlo Papp</p>	<p>Medi 2024</p>		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Nid yw gwaith gyda chlinigwyr a chleifion i ddeall y math o wybodaeth y dylid eu cynnwys mewn llythyrau cleifion wedi dechrau eto. Bydd yn cael ei ddewis o fewn y 1-2 fis nesaf
<p>P2. 18</p>	<p>Argymhellir y dylid ystyried a yw'r arfer o gwblhau Ceisiadau Cyllido Unigol (IFRs) ar gyfer Gwrthgeulyddion Uniongyrchol drwy'r Geg (DOACs) yn parhau i fod yn rhesymol ac a ddylid parhau â hyn gan eu bod ar gael yn eang.</p>	<p>Laszlo Papp</p>	<p>Mehefin 2024</p>		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae trafodaethau gyda chlinigwyr yn dangos nad yw'r arfer hwn yn parhau mwyach

P2. 19	Mae'n bwysig nodi bod rhai gwelliannau diweddar, a phroffesiynoldeb a gwaith y tîm gweinyddol presennol wedi cael eu cydnabod. Fodd bynnag, argymhellir y dylid gwerthuso capasiti eto	Jo Flannery	Mawrth 2024		<ul style="list-style-type: none"> Dechreuwyd ar y gwaith mapio ar draws y rhwydwaith i i helpu i amlinellu'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd ac i nodi'r bylchau -bydd y wybodaeth yn cefnogi datblygu Achos Busnes Cam 2 , lle mae angen adnoddau ychwanegol.
---------------	--	-------------	-------------	--	--

¹ **Diffiniadau o statws RAG:** **Gwyrdd:** Ar y trywydd cywir, **Oren:** Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir **Coch:** Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir

Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad					
Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Terfyn amser	Statws RAG¹	Diweddariad ar gynnydd
P2. 14	Argymhellir y dylid gwneud hyfforddiant ar gydsynio yn orfodol i feddygon iau fel rhan o'u cyfnod cynefino yn BIPBC a'u hyfforddiant parhaus.	Jo Flannery	Mehafin 2024		<ul style="list-style-type: none"> Trefnwyd sesiwn gloywi i lawfeddygon fasgwlaidd i sicrhau bod eu gwybodaeth ar gydsynio yn cael ei diweddarau. Trafodaethau gyda'r adran hyfforddi yn yr arfaeth, er mwyn cynnwys hyfforddiant ar gydsynio fel modiwl hyfforddi gorfodol i bob hyfforddai, meddyg iau a dechreuwyd newydd. Bydd y rhwydwaith yn rheoli'r broses o archebu lleoedd ar yr hyfforddiant.
P2. 15	Argymhellir y dylid defnyddio cyfieithydd i ofyn am gydsyniad gan y claf bob amser, oni bai bod y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhugl yn newis iaith y claf	Laszlo Papp	Gorffennaf 2024		<ul style="list-style-type: none"> Eitem wedi'i chynnwys ar agenda cyfarfod diwrnod cwrdd i ffwrdd fasgwlaidd mis Gorffennaf

<p>P2. 17</p>	<p>Argymhellir y dylid atgoffa'r holl staff i gadw cofnodion o safon uchel a'u cefnogi gyda'u hatebolrwydd proffesiynol i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Dogfennaeth i egluro'r penderfyniadau a wneir ac i ddangos bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu ▪ Defnyddio Datix fel cyfrifoldeb proffesiynol i adrodd ar unrhyw fater a allai beryglu diogelwch cleifion 	<p>Jo Flannery</p>	<p>Medi 2024</p>		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Datblygu adnodd archwilio manwl i alluogi adolygiad sy'n canolbwyntio ar ansawdd nodiadau achos. Y bwriad yw gwneud hyn bob chwarter. Bydd yn sicrhau bod clinigwyr fasgwlaidd yn rhagweithiol wrth nodi meysydd i'w gwella
----------------------	--	--------------------	------------------	--	---

¹ **Diffiniadau o statws RAG:** **Gwyrdd:** Ar y trywydd cywir, **Oren:** Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir **Coch:** Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir